Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

i. Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Nyrsys sy'n Rhagnodi'n Annibynnol, Rhagnodwyr Atodol, Nyrsys-ragnodwyr Annibynnol a Fferyllwyr-Ragnodwyr Annibynnol) (Cymru) 2007;

ii. Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Theclynnau) 2007; a

iii. The Pharmaceutical Services (Advanced and Enhanced Services) (Wales) (Amendment) Directions 2006

1. Nododd y Pwyllgor y tri eitem uchod o is-ddeddfwriaeth i graffu arnynt ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod ar 15 Tachwedd. Cawsant eu hystyried yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, lle y mae Aelodau yn rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau neu welliannau y maent am eu gwneud i'r Rheoliadau.

2. Ni chynigiwyd unrhyw welliannau gan yr Aelodau, ond cododd Jenny Randerson AC bum pwynt o eglurhad ac mae pob un ohonynt yn ymwneud ag eitem (i), Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Nyrsys sy'n Rhagnodi'n Annibynnol, Rhagnodwyr Atodol, Nyrsys-ragnodwyr Annibynnol a Fferyllwyr-Ragnodwyr Annibynnol) (Cymru) 2007.

3. Mae'r ymholiadau ac ymateb y Gweinidog iddynt wedi'u nodi isod:

i. Pa gyfran o fferyllwyr a nyrsys sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd sy'n caniatáu iddynt roi cyffuriau penodol ar bresgripsiwn?

Ymateb: Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ffigurau, ond amcangyfrifir bod rhwng 400 a 500 o bobl yng Nghymru wedi'u cofrestru ar hyn o bryd.

ii. Pa gynlluniau sy'n bodoli i gynyddu'r niferoedd sydd wedi'u cofrestru i wneud hyn?

Ymateb: Mater i'r cyrff comisiynu fyddai hynny.

iii. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hysbysebu'r ffaith bod presgripsiynu estynedig ar gael unwaith y daw'r rheoliadau i rym?

Ymateb: Ni fydd Llywodraeth y Cynulliad yn tynnu sylw at y newidiadau. Wrth i wasanaethau gael eu hailstrwythuro a bod mwy o nyrsys yn rhedeg clinigau, bydd cleifion yn cael gwybod am y gallu i bresgripsiynu. Mae'n bosibl y bydd presgripsiynwyr annibynnol yn dewis hysbysebu.

iv. O ran Papur Goblygiadau Ariannol HSS (2)-16-06 (p2a), a yw'r Gweinidog yn ffyddiog y bydd darpariaeth yn gallu cael ei gwneud ar gyfer y costau ychwanegol yn y Gyllideb Presgripsiynwyr atodol? A yw'r Gweinidog yn bwriadu cynyddu'r gyllideb hon y flwyddyn nesaf?

Ymateb: Mae codiad o saith y cant ar gyfer cyffuriau yn y gyllideb ddrafft. Nid oes disgwyl y bydd y newidiadau mewn arferion presgripsiynu yn cynyddu'r galw yn sylweddol.

v. Gan gyfeirio at yr un papur: pam bod tâl yn dal i gael ei godi am bresgripsiynau sy'n ymwneud ag optometreg?

Ymateb: Bydd y rheoliadau'n caniatáu i optometryddion roi presgripsiynau o dan y GIG, sy'n rhywbeth na allant ei wneud ar hyn o bryd.

4. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r rheoliadau fel ag y'u drafftiwyd.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Tachwedd

Tachwedd 2006